Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James
# Ffordd Y Rhondda
# Pontypridd
# Rhondda Cynon Tâf
# CF37 1HQ

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2016**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James ar gyrion canol tref Pontypridd, yn Rhondda Cynon Taf.

Mae 308 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Maent wedi’u trefnu’n un dosbarth ar ddeg, sy’n cynnwys 36 o ddisgyblion yn y dosbarth Meithrin llawn amser a tri dosbarth oed cymysg. Mae’r ysgol yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Daw ychydig dros 4% o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae tua 8.4% o’r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sy’n is na chyfartaledd Cymru. Mae gan oddeutu 15.3% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Mae’r pennaeth yn ei swydd ers 2013. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Tachwedd 2009.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James yn 2015-2016 yn £2,786 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf yw £6,164 a'r lleiafswm yw £2,537. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James yn safle 96 o’r 105 ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu
- bod bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yno ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor a chymorth
- bod yr ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog sy'n bodloni'r gofynion yn effeithiol
- y caiff yr iaith Gymraeg ei hyrwyddo'n dda
- bod ansawdd yr addysgu yn lled gadarn
- bod ganddi weithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion
- ei bod yn gymuned ddiogel a gofalgar
- bod ethos croesawgar a chynnes yn bodoli yno

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda'r staff a'r llywodraethwyr
- ei bod yn ymateb yn llwyddiannus i nifer o flaenoraethau cenedlaethol
- bod aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn ac yn cyfrannu'n dda at ddarpariaeth a gwaith yr ysgol
- bod gweithdrefnau hunanarfarnu wedi'u sefydlu'n gadarn
- bod ganddi nifer o bartneriaethau strategol sy'n cyfrannu at godi safonau a gwella lles disgyblion yn effeithiol
- ei bod wedi ei staffio'n briodol ac y gwneir defnydd da o arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu
- ei bod yn cynnig gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Gwella medrau darllen y disgyblion

A2 Gwella presenoldeb

A3 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gyson

A4 Sicrhau bod yr addysgu'n hybu dysgu annibynnol disgyblion, yn arbennig y mwy abl

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau isel ar gyfer eu hoed. Fodd bynnag, mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

O ystyried eu man cychwyn, yn enwedig eu gallu i siarad yr iaith, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gafael yn y Gymraeg yn fuan ar ôl dechrau'r ysgol. Maent yn gwrando'n astud ar oedolion ac yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn siarad yn hyderus gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa berthnasol a phatrymau brawddegau yn gywir. Erbyn Blwyddyn 6, mae bron pob un yn hyderus wrth drafod eu gwaith, gan fynegi eu syniadau'n glir a chyda chywirdeb. Mae'r disgyblion ar draws yr ysgol yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio'n naturiol wrth sgwrsio gyda'i gilydd. Mae medrau llafaredd Saesneg bron pob disgybl yn datblygu'n llwyddiannus.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol ac yn unol â'u galluoedd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif ohonynt yn gallu darllen yn fwyfwy rhugl ac yn ailadrodd storïau'n hyderus. Mae llawer yn trafod eu llyfrau yn synhwyrol ac mae ganddynt wybodaeth gynyddol am wahanol fathau o lyfrau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn darllen yn gywir, gyda dealltwriaeth sy'n briodol i'w hoed a'u gallu yn y ddwy iaith. Maent yn trafod y prif ddigwyddiadau a'r cymeriadau yn eu llyfrau cyfredol yn briodol. Fodd bynnag, lleiafrif o'r disgyblion sy'n trafod amrywiol destunau ac ateb cwestiynau'n effeithiol ynglŷn â chynnwys y llyfrau y maent yn eu darllen yn y Gymraeg. Maent yn deall diben llyfrau ffeithiol ac yn rhannu'u barnau yn bwrpasol yn ystod trafodaethau, er enghraifft yn eu hymchwil ar Martin Luther King. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio uwch fedrau darllen yn addas i gaffael gwybodaeth benodol o destun.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn dangos datblygiad parhaus o ran datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn y Gymraeg. Maent hefyd yn gwneud cynnydd cychwynnol effeithiol yn eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu geirfa syml wyddonol i ddisgrifio sut i wneud gwrthrychau i symud. Defnyddiant eirfa ac ymadroddion yn gynyddol gywir, er enghraifft wrth ysgrifennu am brofiad Tedi ar goll yn y goedwig. Maent yn amrywio brawddegau ac yn defnyddio atalnodau yn hyderus wrth ysgrifennu ffurfiau amrywiol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig mewn amrywiaeth o arddulliau yn llwyddiannus yn y ddwy iaith, gan ddefnyddio geirfa ddiddorol i gyfoethogi eu gwaith. Maent yn cyflwyno'u syniadau a'u gwybodaeth yn effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n effeithiol at wahanol bwrpasau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft, ysgrifennu bywgraffiad am fywyd Isambard Kingdom Brunel a sgriptio hanes yr arwr lleol, Guto Nyth Bran. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn daclus iawn.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau mathemategol cadarn. Erbyn diwedd y cyfnod, mae gan lawer afael sicr ar ffeithiau rhif ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau yn eu gweithgareddau. Mae llawer yn cymhwyso eu dealltwriaeth o unedau mesur safonol ac ansafonol yn dda, er enghraifft wrth fesur hyd gwely mam-gu'r Hugain fach Goch. Mae'r rhan fwyaf yn casglu, cyflwyno a dadansoddi gwybodaeth syml wrth greu tabl a llunio graffiau syml, er enghraifft drwy arddangos tymheredd gwahanol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhifedd. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn adnabod y camau sydd eu hangen i ddatrys problemau ac yn datblygu strategaethau priodol yn gywir, er enghraifft wrth gyfrifo cost ymweld â gem rygbi. Maent yn casglu a chyflwyno gwybodaeth yn systematig a chywir ar ffurf tablau a graffiau wrth ymchwilio i'r pellter y gall roced deithio. Mae medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn ac maent yn eu trosglwyddo'n bwrpasol i feysydd eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn trafod ac yna dewis pwy, allan o drawstoriad o bobl, gyda phob un â'u rhesymau gwahanol, ddylai dderbyn trawsblaniad.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau addysg unigol. Nid oes gwahaniaeth amlwg rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y lefel ddisgwyliedig nac ar y lefel uwch na'r disgwyl, drwy graffu ar lyfrau nac yn ystod arsylwadau gwersi. Oherwydd bod maint y carfanau'n fach, nid yw'n bosibl dod i farn ystyrlon ar sail data disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn cymharu'n fwy ffafriol â'u cyfoedion dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae cynnydd a safonau da disgyblion mwy abl yn fwy amlwg drwy graffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi nag ydyw wrth ystyried y data.

O gymharu ag ysgolion tebyg, dros bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliannau disgwyliedig yn y Cyfnod Sylfaen wedi amrywio rhwng yr 50% uwch a'r 50% is mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliannau uwch dros yr un cyfnod wedi amrywio rhwng 50% is a'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn ystod yr un cyfnod, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig ac uwch mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, yn gyffredinol wedi amrywio rhwng yr 50% uwch a'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor a chymorth. Mae'r rhan fwyaf yn gwybod beth sydd ei angen er mwyn bwyta'n iach ac maent yn deall pam mae angen ymarfer y corff yn rheolaidd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n dda o fewn y dosbarth ac yn dangos diddordeb brwd yn eu gwaith. Mae llawer o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn cyfrannu eu syniadau'n effeithiol tuag at gynllunio agweddau o thema'r dosbarth. Er

enghraifft, mae'r 'Gwenyn gwych' yn mapio gweithgareddau annibynnol i gyd-fynd â llyfr yr wythnos. Fodd bynnag, er nad yw disgyblion hŷn yr ysgol yn cyfrannu mor llwyddiannus i'w gweithgareddau, maent yn datblygu eu medrau i wella'u gwaith eu hunain yn llwyddiannus ac yn ymateb yn rheolaidd i sylwadau'r athrawon.

Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn awyddus i ymgymryd â chyfrifoldebau ac maent yn chwarae eu rôl yn dda. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cynrychioli llais y disgyblion eraill yn effeithiol. Yn ddiweddar, maent wedi gwella'r amgylchfyd chwarae, dyfeisio gweithdrefn tocynnau iaith a chreu rôl 'Capten Cymraeg' sy'n llwyddiannus wrth annog y disgyblion eraill i siarad Cymraeg yn gyson. Mae grwpiau o ddysgwyr eraill, fel yr arweinwyr digidol, yn dechrau cefnogi medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) nifer o ddisgyblion yn effeithiol. Mae criw arall yn cynnig cyfleoedd entrepreneuraidd i lawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 drwy greu gemwaith a chynhyrchu papur newydd i'r ysgol.

Er eu bod wedi gwella'n gyson dros dair blynedd, mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol yn parhau yn y 50% is o'u cymharu ag ysgolion tebyg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog sy'n bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn effeithiol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen wedi ymwreiddio'n gadarn ar gyfer rhan fwyaf y disgyblion. Mae'r athrawon yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu i ysbrydoli'r disgyblion. Er enghraifft, mae ymweliad â 'Cwrt Hampton' yn Llundain wedi sbarduno diddordeb y disgyblion hŷn ym mywyd y Tuduriaid yn llwyddiannus.

Mae'r athrawon yn cynllunio themâu cyfoes ac yn sicrhau bod dilyniant effeithiol yn bodoli ar ddysgu blaenorol y disgyblion. Mae'r ysgol wedi ymgorffori'r Fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd yn llwyddiannus i'w gweithdrefnau. Mae'r cynllunio hir dymor yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd a rhifedd, a'u medrau meddwl, yn rheolaidd mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae hon yn nodwedd gref ar draws yr ysgol ac yn cael effaith gadarn ar gynnydd ac ansawdd dysgu disgyblion. Fodd bynnag, cyfyng yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y disgyblion.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r elfen Gymreig ei hyrwyddo'n effeithiol. Gwahoddir beirdd ac artistiaid preswyl i gydweithio â'r disgyblion a chaiff yr ymweliadau hyn effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion. Rhoddir lle blaenllaw i ddiwylliant lleol a chenedlaethol, er enghraifft trwy gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ac yn y cwis llyfrau blynyddol. Mae hyn yn adlewyrchiad cadarnhaol o'r hyn sy'n digwydd ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Mae gwaith y cynghorau ysgol ac eco yn sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth bwrpasol o gynaliadwyedd. Mae'r 'rheolau gwyrdd' ym mhob dosbarth yn annog y disgyblion i ailgylchu ac i arbed ynni'n llwyddiannus. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ac amrywiol i'r disgyblion gefnogi elusennau a helpu'r rheini sy'n llai ffodus na nhw. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn lled gadarn ar draws yr ysgol. Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion. Mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r pynciau a'r meysydd dysgu ac maent yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu'r medrau'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r cyflwyniadau mewn gwersi yn fywiog ac mae athrawon yn holi'n bwrpasol i ymestyn dealltwriaeth disgyblion a chodi safonau. Mae rhan fwyaf y staff yn modelu iaith yn dda ac mae hyn yn cyfoethogi ansawdd iaith lafar disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn defnyddio staff cymorth yn effeithiol i gefnogi unigolion penodol.

Mewn ychydig ddosbarthiadau, mae tueddiad gan athrawon i arwain y disgyblion yn ormodol. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion, yn arbennig y mwy abl, i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol a chymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Mae athrawon ar draws yr ysgol wedi mabwysiadu strategaethau effeithiol ar gyfer asesu ar gyfer dysgu sy'n cynnwys cynnig cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae athrawon yn defnyddio strategaeth effeithiol 'beth sydd angen i groesi'r bont?' fel sbardun i'r disgyblion greu meini prawf llwyddiant eu hunain. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn fanwl ac yn cynnig adborth llafar defnyddiol iddynt yn ystod gwersi. Yn ogystal, caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i ymateb i'w gwaith eu hunain. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth gref o'r hyn sydd angen arnynt ei wneud er mwyn llwyddo mewn tasgau.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Trwy weithredu'r rhain yn gydwybodol, mae athrawon yn medru adnabod anghenion disgyblion yn gynnar a chynllunio gweithgareddau priodol ar gyfer grwpiau ac unigolion, gan sicrhau cynnydd.

Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar. Mae'r trefniadau effeithiol i gynnig cymorth yn cael effaith lwyddiannus ar safonau a lles y disgyblion. Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn deall sut i gadw'n heini. Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn effeithiol trwy ddefnyddio systemau gwobrwyo wythnosol. Rhoddir pwyslais rheolaidd ar bresenoldeb da a chyson. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les, ymddygiad ac agwedd disgyblion tuag at ddysgu.

Mae'r staff yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth o agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn llwyddiannus drwy wasanaethau cyd-addoli rheolaidd a gweithgareddau'r cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r cyfleoedd i ddisgyblion i greu ffilm am daith y Cymry i Batagonia yn dylanwadu'n gryf ar eu dealltwriaeth am ddiwylliant a hanes Cymru.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas a rheolaidd o wasanaeth asiantaethau allanol, fel y gwasanaeth iechyd a'r seicolegydd addysg, i gefnogi disgyblion unigol. Mae'r ddarpariaeth amrywiol yn cael effaith fuddiol ar hyder a chyflawniadau'r disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr i adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn gynnar. Mae'n cynnig cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion sydd angen cymorth penodol drwy grwpiau ymyrraeth i wella, er enghraifft, fedrau llythrennedd, rhifedd neu gymdeithasol rhai disgyblion. Mae cynlluniau addysg unigol y disgyblion yn nodi targedau priodol iddynt ac adolygir y cynlluniau yn rheolaidd, gan gynnwys y rhieni yn y broses. O ganlyniad, mae'r ysgol a'r rhieni yn medru gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â'i gilydd er lles a chynnydd y disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn un croesawgar a chynnes. Mae cymuned yr ysgol yn gwerthfawrogi gallu a chyflawniadau pob disgybl yn effeithiol. Mae'r disgyblion yn cydweithio'n effeithiol iawn gyda'i gilydd a chydag oedolion.

Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn effeithiol dros ben drwy gyfres o arddangosfeydd deniadol a symbylus. Mae'r 'llwybr llwyddiannau' yn cynnwys holl randdeiliaid yr ysgol, sy'n ennyn balchder y disgyblion ynddyn nhw eu hunain ac yn magu hyder a hunan-barch ynddynt.

Rhoddir pwyslais ar sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i'r cwricwlwm i'r holl ddisgyblion. Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb drwy waith amrywiol. Er enghraifft, defnyddir hanes Rosa Parks fel sbardun i drafodaethau am hiliaeth.

Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau o ansawdd priodol sy'n cyfoethogi'r dysgu ac mae ardal allanol y Cyfnod Sylfaen yn ddychmygus a diddorol. Mae'r ardaloedd wedi eu strwythuro'n ofalus i gefnogi'r ardaloedd dysgu gwahanol ac i hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol.

Mae'r adeilad, er yn hen, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a gwneir y defnydd gorau o'r hyn sydd ar gael. Mae safle'r ysgol yn ddiogel ac nid yw'n destun pryder.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda'r staff a'r llywodraethwyr. Mae'n gweithio'n effeithiol gyda'r dirprwy bennaeth sydd hefyd yn cynnig arweiniad clir i'r ysgol. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cefnogi'r pennaeth yn dda. Mae'r athrawon yn ymroddedig ac maent yn cydweithio'n agos â'i gilydd i greu ethos cartrefol ar gyfer y disgyblion. Mae gwaith tîm yn nodwedd amlwg ac mae pawb yn cydweithio'n effeithiol i godi safonau a sicrhau lles disgyblion.

Mae arweinwyr yn defnyddio cyfarfodydd staff fel cyfrwng effeithiol i drafod cynllunio a chynnydd disgyblion yn rheolaidd. Cyfranna hyn tuag at godi safonau ar lawr y dosbarth ac at adnabod anghenion disgyblion unigol. Mae prosesau rheoli perfformiad yn hyrwyddo agweddau perthnasol ar gyfer datblygiad proffesiynol y staff yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r defnydd o'r Fframweithiau Rhifedd a Llythrennedd ar gyfer mapio'r medrau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft, wedi eu plethu'n effeithiol ar draws y themâu. Mae gan yr ysgol drefniadau penodol ac effeithiol i wella lles a chyflawniad y disgyblion mwy bregus.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn ac maent yn cyfrannu at y ddarpariaeth a gwaith yr ysgol yn dda. Trwy dderbyn adroddiadau'r pennaeth ac ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, maent yn cynyddu eu dealltwriaeth o faterion cwricwlaidd, safonau a lles y disgyblion. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o ddata ac maent yn dechrau dwyn yn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn bwrpasol. Mae hyn wedi arwain yn benodol at ddatblygu darpariaeth briodol i gefnogi a gwella lles y disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu wedi'u sefydlu'n gadarn yn yr ysgol. Maent yn seiliedig ar raglen fonitro glir sy'n cynnwys arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a chywain barn staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Mae'r staff yn cyfrannu'n effeithiol at y broses hon gan lunio adroddiadau pynciol defnyddiol sy'n ffocysu'n glir ar wella ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn dadansoddi data perfformiad yr ysgol yn fanwl. Gwneir defnydd effeithiol o'r wybodaeth hon gan y staff cyfan i gynllunio eu camau gwelliant ac adnabod anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu, a luniwyd gan y pennaeth a'r staff, yn rhoi darlun gonest o'r ysgol. Mae'n nodi barn glir am gyrhaeddiad disgyblion a'r mannau lle mae angen gwelliant o ran y safonau a'r ddarpariaeth.

Mae cyswllt da yn bodoli rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau priodol ar gyfer gwelliant, ynghyd ag adolygiad trylwyr o'r cynnydd mewn perthynas â bwriadau'r cynllun blaenorol. Mae wedi ei gostio'n ofalus ac yn nodi'n glir amserlen gweithredu a chyfrifoldebau staff penodol. Mae'r cynllun hefyd yn gwneud defnydd helaeth o ddangosyddion llwyddiant i fesur cynnydd, yn cynnwys targedau meintiol a heriol sy'n gysylltiedig â chodi safonau. Mae hyn wedi arwain at welliannau, yn arbennig mewn safonau llythrennedd ar draws yr ysgol a datblygiad mathemategol yn y Cyfnod Sylfaen.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol sy'n cyfrannu'n effeithiol at godi safonau a gwella lles disgyblion.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli gyda rhieni. Mae'r ysgol yn cynnal sesiynau, fel 'caffi llythrennedd', er enghraifft, i hysbysu'r rhieni am faterion cwricwlaidd, ac mae'r clwb ffitrwydd i'r teulu cyfan yn hybu pwysigrwydd cadw'n heini yn llwyddiannus. Mae'r clwb gwaith cartref yn galluogi rhieni i ddeall cysyniadau cyfredol i fedru cefnogi eu plant gartref. Mae'r gymdeithas rhieni'n weithgar ac yn cyfrannu'n ariannol yn flynyddol ar gyfer darparu adnoddau amrywiol a defnyddiol.

Ceir cysylltiadau effeithiol â'r gymuned. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn cyngherddau yn y capel ac yn canu carolau yn y ganolfan leol. Maent yn ymweld â busnesau lleol i godi eu hymwybyddiaeth o'u hardal. Mae'r ysgol yn croesawu ymwelwyr i siarad am eu gwaith. Enghraifft dda yw'r awdur Gwyn Morgan a ddaeth i'r ysgol i siarad am ei waith, ac sydd wedi dylanwadu ar fedrau creadigol y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae perthynas waith gadarn yn bodoli rhwng nifer o ysgolion eraill i rannu arfer dda ac i ddatblygu strategaethau newydd. Er enghraifft, mae'r bartneriaeth rhwng dwy ysgol arall yn y gymuned ehangach i godi safonau disgyblion mwy abl yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar waith ysgrifennu disgyblion yn yr ysgol. Mae cynlluniau trosglwyddo effeithiol rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd yn paratoi disgyblion Blwyddyn 6 yn llwyddiannus ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r gweithgareddau safoni a chymedroli sy'n bodoli ar y cyd gydag ysgolion lleol eraill yn sicrhau cysondeb mewn asesiadau athrawon. Mae hyn hefyd yn cyfrannu'n effeithiol at ddealltwriaeth athrawon o lefelu gwaith, ac at wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol a gwna ddefnydd effeithiol o arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Mae staff cynorthwyol yr ysgol yn rhan annatod o'r tîm ac yn cyfrannu'n sylweddol i lwyddiant y dysgu.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau addas ar gyfer rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol y staff. Defnyddia'r athrawon eu cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol i godi safonau.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol o fewn cymunedau dysgu proffesiynol gydag ysgolion y clwstwr a theulu, ac mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at gyfoethogi darpariaeth yr ysgol. Enghreifftiau llwyddiannus yw'r ffordd maent wedi cydweithio i godi safonau llythrennedd.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn gwneud penderfyniadau gofalus ar gyfer gwneud y defnydd gorau o'r cyllid a'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae gwariant ar gyfer cynnal yr ysgol yn adlewyrchu blaenoriaethau'r cynllun datblygu'r ysgol yn dda. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella'r ddarpariaeth ymhellach ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hefyd yn cael effaith werthfawr ar les a hyder y disgyblion hyn.

O ystyried safonau'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6742362 - YSGOL GYMRAEG EVAN JAMES**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 335 |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.5 |
| Grŵp PYD | 2 (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 48 | 35 | 40 | 43 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 79.2 | 82.9 | 90.0 | 90.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 48 | 35 | 40 | 43 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 88.6 | 95.0 | 93.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 37.5 | 34.3 | 30.0 | 41.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 48 | 35 | 40 | 43 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 89.6 | 88.6 | 92.5 | 95.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 41.7 | 28.6 | 30.0 | 48.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 48 | 35 | 40 | 43 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 91.7 | 94.3 | 95.0 | 95.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 47.9 | 54.3 | 52.5 | 62.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6742362 - YSGOL GYMRAEG EVAN JAMES**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 335 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.5 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 56 | 39 | 36 | 40 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 89.3 | 92.3 | 91.7 | 92.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 56 | 39 | 36 | 40 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 89.3 | 89.7 | 94.4 | 95.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 39.3 | 46.2 | 33.3 | 47.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 56 | 39 | 36 | 40 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 85.7 | 89.7 | 91.7 | 95.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 32.1 | 41.0 | 27.8 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 56 | 39 | 36 | 40 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.9 | 97.4 | 97.2 | 95.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 39.3 | 38.5 | 33.3 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 56 | 39 | 36 | 40 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 89.3 | 97.4 | 94.4 | 95.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 32.1 | 38.5 | 27.8 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 93 | 93<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 93 | 92<br>99%<br>92% | 1<br>1%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 93 | 92<br>99%<br>97% | 1<br>1%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 93 | 93<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 93 | 92<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 93 | 93<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 93 | 93<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 93 | 93<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 93 | 91<br>98%<br>91% | 2<br>2%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 93 | 93<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 93 | 90<br>97%<br>77% | 3<br>3%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 93 | 92<br>99%<br>84% | 1<br>1%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 43 | 21 | 19 | 2 | 1 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 49% | 44% | 5% | 2% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 44 | 28 | 14 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 64% | 32% | 5% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 44 | 27 | 14 | 3 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 61% | 32% | 7% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 44 | 27 | 12 | 4 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 27% | 9% | 2% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 37 | 9 | 22 | 4 | 2 | 7 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 24% | 59% | 11% | 5% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 42 | 19 | 20 | 3 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 45% | 48% | 7% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 44 | 24 | 16 | 2 | 2 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 55% | 36% | 5% | 5% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 42 | 15 | 24 | 2 | 1 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 36% | 57% | 5% | 2% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 41 | 19 | 18 | 3 | 1 | 3 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 46% | 44% | 7% | 2% | | |
| | | 60% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 44 | 23 | 20 | 1 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 52% | 45% | 2% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 43 | 25 | 15 | 3 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 58% | 35% | 7% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 34 | 11 | 17 | 4 | 2 | 9 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 32% | 50% | 12% | 6% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 44 | 14 | 23 | 7 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 32% | 52% | 16% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 44 | 29<br>66% | 13<br>30% | 2<br>5% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 35 | 8<br>23% | 21<br>60% | 4<br>11% | 2<br>6% | 9 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 42 | 20<br>48% | 18<br>43% | 4<br>10% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 26 | 7<br>27% | 14<br>54% | 5<br>19% | 0<br>0% | 18 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 43 | 13<br>30% | 24<br>56% | 5<br>12% | 1<br>2% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 43 | 20<br>47% | 20<br>47% | 3<br>7% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Eleri Hurley | Arolygydd Cofnodol |
| David Davies | Arolygydd Tîm |
| Gwen Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Berian Lewis | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gruffydd Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Richard Carbis | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.